



Bwletin GwE

CYDWEITHIO

DYSGU

LLWYDDO



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

CYNNIG PROFFESIYNOL GwE

Cynnig Proffesiynol GwE ar G6

Mae Cynnig GwE ar G6 yn cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnig ar gyfer y flwyddyn ysgol.

Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6. Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y [ddolen hon](#) a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau [yma](#).

Sicrhewch eich bod yn cofrestru ar G6 o leiaf 48 awr cyn y dyddiad cychwyn.

07/07/2022-18/11/2022	Dyddiad	Cyfrwng
Rhwydwaith y Cyfnod Sylfaen tymor yr Haf (cyfrwng Saesneg) dyddiad newydd	07/07/2022	Saesneg
Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma	12/07/2022	Saesneg
Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma	15/09/2022	Saesneg
Lefel Sylfaen mewn Hyfforddiant Therapi Gwneud Llun a Siarad	29/09/2022	Saesneg
Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma	19/10/2022	Saesneg
Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma ac Iechyd Meddwl - hyfforddiant 2 ddiwrnod ar gyfer Uwch Arweinwyr	24/10/2022	Saesneg
'Bioffilia' - 'Gwell allan nag i mewn', Dr Coral Harper	18/11/2022	Saesneg

Cynnig Dysgu Proffesiynol – Dysgu Digidol



Mae cynnig dysgu proffesiynol dysgu digidol ar gyfer 2022-23 yn fyw!

Cliciwch yma i weld yr hyfforddiant a'r gefnogaeth sydd ar gael:

<https://sites.google.com/hwbcymru.net/cdppllo/iaith-language>

Cynnig Dysgu
Proffesiynol –
Dysgu Digidol

Canolfan
Arweinyddiaeth Ddigidol
Modelau
Tîm Data
Cynhyrwydd Digidol yng
Nghymuned Cymuned 1 & 2
Adroddi Stori yn Ddigidol
Google Workspace
ENGLISH

Cynnig Dysgu Proffesiynol - Dysgu Digidol

2022-23

Hyfforddiant

Google for Education



GOOGLE FOR

Adroddi Stori yn Ddigidol



ADRODDI STORI

Modelau



MODELLU

Tîm Data



Tîm DATA



Bryn Eirias, Ffordd Abergele,
Bae Colwyn, LL29 8BY



0300 500 8087



Canolfan Cefnogaeth GwE



@GwEGogleddCymru



post@gwegogledd.cymru



www.gwegogledd.cymru



g6.gwegogledd.cymru



GwE Gogledd Cymru

RHAGLENNI CENEDLAETHOL

ANG - Dyddiadau Pwysig ar gyfer 2022/23

Mae dyddiadau'r dysgu proffesiynol ar gyfer ANG a fydd yn gweithio yn eich ysgol o fis Medi 2022 ar gael [yma](#).
Mae'n bwysig bod pob ANG yn mynychu'r Dysgu Proffesiynol.



Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol

Rydym yn falch o rannu dyddiadau â chi ar gyfer carfanau nesaf y Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth cenedlaethol.

Noder, yn benodol, lansiad ar **20/06/2022** o'r **Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid – paratoi at CPCP**. Rhydd hyn gyfle i ddarpar ymgeiswyr gychwyn ar eu gwaith paratoi. Cliciwch [yma](#) am fwy o wybodaeth am y broses ymgeisio. Cyngorior darpar ymgeiswyr yn gryf i wyllo'r fideo o'r sesiwn briffio cyn ymgeisio. Wedi gwyllo'r fideo, ceir cyfle yn fuan yn nhymor yr Hydref i fynychu sesiwn cwestiwn ac ateb ar gyfer darpar ymgeiswyr ac/neu eu pennaeth/rheolwr llinell.

Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol [RhDAG - GwE \(gwegogledd.cymru\)](#)

Ceisiadau yn agor	13/09/22
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais	erbyn 1yp ar 06/10/22
Sesiwn ragarweiniol ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus	w/c 28/11/22
Rhaglen yn cychwyn	Ionawr 2023
Rhaglen yn gorffen	Rhagfyr 2023

Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr [RhDUA - GwE \(gwegogledd.cymru\)](#)

Ceisiadau yn agor	20/09/22
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais	erbyn 1yp ar 13/10/22
Sesiwn ragarweiniol ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus	w/c 28/11/22
Rhaglen yn cychwyn	Ionawr 2023
Rhaglen yn gorffen	Rhagfyr 2023

Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid – paratoi at CPCP (cpcp@gwegogledd.cymru)

Lansio'r Rhaglen	22/06/22
Sesiynau cwestiwn ac ateb ar gyfer darpar ymgeiswyr	Medi 2022
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais	erbyn 1yp ar 27/10/22
Rhaglen yn cychwyn	Ionawr 2023
Ceisiadau ar gyfer Asesiad CPCP	Tachwedd 2023
Canolfan Asesu CPCP	Chwefror 2024

NEWYDDION A GWYBODAETH GwE

Y Gymraeg

Grantiau Cronfa Glyndŵr yr Ysgolion Cymraeg



Mae Cronfa Glyndŵr yr Ysgolion Cymraeg yn cynnig grantiau bach er mwyn hyrwyddo addysg Gymraeg ac yn awyddus iawn i gyrraedd cynifer o ysgolion ag y bo modd. Gall unrhyw ysgol Gymraeg (cynradd/uwchradd) a fyddai'n hoffi cael ychydig o gymorth wrth farchnata wneud cais drwy gwblhau'r [ffurflen gais](#) yma.

Mae mwy o wybodaeth ar eu gwefan: [cwestiynau cyffredin](#) a y [newyddion-diweddaraf](#)



Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol



Ydych chi neu rhywun yn eich ysgol yn awyddus i ddysgu Cymraeg?

Cysylltwch â'ch awdurdod lleol neu defnyddiwch y ddolen hon i gael rhagor o fanylion am gyrsiau ar-lein er mwyn cael blas o'r hyn sydd ar gael: [Cyrsiau ar gyfer y gweithlu addysg](#) a [dod o hyd i gwrs](#).

Croeso i chi gysylltu â ni os am gael mwy o wybodaeth:

SgiliaulaithGymraeg@gwegogledd.cymru



Holiaduron Siarter Iaith

Mae'r dolenni ar gyfer holiaduron Tymor yr Haf 2022 yn awr yn fyw ar Hwb. Mae modd i chi gwblhau'r holiaduron er mwyn cymharu â chanlyniadau dechrau'r flwyddyn. [Cliciwch yma am drosolwg ac ar gyfer y dolenni](#).

Dyfodol Byd-eang GwE: leithoedd Rhyngwladol

Am fwy o wybodaeth neu am gymorth gyda'r eitemau isod, cysylltwch â stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru

Canolfan Cefnogaeth GwE: [leithoedd Rhyngwladol – Sector Cynradd](#) a sector Uwchradd: gwybodaeth, arweiniad, cyfleoedd ac adnoddau

Cymraeg: <http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/pynciau-allgraid-adnoddau-gwe/>

CYLCHLYTHYR MEHEFIN/GORFFENNAF

[Cynradd](#) | [Uwchradd](#)

Gweminar Rhwydwaith STEM Gogledd - 07/07/2022, 16.00 - 17.00



'Datblygu Eich Cymuned STEM' - Yr olaf mewn rhaglen o 5 sesiwn ar gyfer athrawon STEM a Chynllunwyr Cwricwlwm sydd â diddordeb mewn datblygu STEM yn eu hysgolion neu golegau. Bydd M-Sparc a STEM Gogledd yn cyflwyno syniadau yn y sesiwn yma.

Cliciwch [yma](#) am fwy o wybodaeth.

Cyhoeddi Gwaith Ymchwil Newydd gan GwE - Prifysgol Bangor



'Factors From Middle Childhood That Predict Academic Attainment at 15–17 Years in the UK: A Systematic Review'

Mae'n bleser gan GwE weld bod canlyniadau un o'n prosiectau ymchwil ar y cyd wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar mewn cyfnodolyn a adolygwyd gan gymheiriaid, sef Frontiers in Education.

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#).

GWYBODAETH AC ARWEINIAD LLYWODRAETH CYMRU

Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol

Mae'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn cael ei datblygu ar hyn o bryd ar y cyd â Llywodraeth Cymru. I gael rhagor o fanylion ar sut gallwch chi gyfrannu at y gwaith o gyd-awduru'r Hawl, gweler y ddolen isod.

[Hawl ar gyfer Dysgu Proffesiynol Ffurflen Archebu - Cyfarfodydd ag ysgolion \(office.com\)](#)

Asesiadau Personol - diweddariad pwysig

Am ddiweddariad ynglŷn ag Asesiadau Personol gan Llywodraeth Cymru, cliciwch [yma](#).



Cefnogi'r broses o drosglwyddo o'r trefniadau presennol i'r Cwricwlwm i Gymru

Diben y diweddariad hwn yw darparu gwybodaeth ychwanegol i helpu ysgolion a lleoliadau i baratoi at gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2022.

<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/trefniadau-asesu/cefnogi-r-broses-o-drosglwyddo-o-r-trefniadau-presennol-i->



GWYBODAETH AC ARWEINIAD GAN ERAILL

MA Astudiaeth Addysg (Rhan Amser) - Prifysgol Bangor

Mae'r rhaglen MA mewn Astudiaethau Addysg yn cynnig ffordd hyblyg o astudio ar gyfer cymhwyster Meistr. Mae ystod eang o fodiwlau ar gael yn 2022/23.

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)



Prifysgol Bangor: Rhaglen Meistr Addysg Genedlaethol

MAE LLEFYDD WEDI'U HARIANNU YN LLAWN AR Y RHAGLEN MEISTR ADDYSG GENEDLAETHOL YN CYCHWYN YM MIS MEDI 2022

Mae gan Ysgol y Gwyddorau Addysgol, Prifysgol Bangor lefydd wedi'u hariannu'n llawn yn dechrau ym mis Medi 2022 ar gyfer:

- MA Addysg Cenedlaethol (Cymru),
- MA Addysg Cenedlaethol (Cymru) Arweinyddiaeth
- MA Addysg Cenedlaethol (Cymru) Anghenion Dysgu Ychwanegol

Am fwy o wybodaeth am gynnwys y rhaglen, y gofynion mynediad a'r cymhelliannau ariannol posibl, ewch i [Addysg Cenedlaethol \(Cymru\) | Prifysgol Bangor](#) neu cysylltwch â Dr. Tanya Hathaway t.hathaway@bangor.ac.uk

MA Addysg [Cymru]

PRIFYSGOL GLYNDŴR, WRECSAM

Mae gan Brifysgol Glyndŵr Wrecsam 50 o lefydd wedi'u hariannu'n llawn ar gyfer y rhaglen astudio gyffrous hon. Am ragor o fanylion am y cyfleoedd a ariennir, [cliciwch yma](#) neu cysylltwch â Kelly Smith, Arweinydd y Rhaglen [\[K.Smith2@glyndwr.ac.uk\]](mailto:K.Smith2@glyndwr.ac.uk).

Cymwys ar gyfer y Dyfodol: Y cynnig ehangach o gymwysterau 14-16

Ym mis Hydref 2021, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, cyhoeddwyd yr ystod newydd o bynciau TGAU a fydd yn cael eu creu i gefnogi'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

Rydym ni'n cynnal gweithdai i rannu ein canfyddiadau ac archwilio syniadau cychwynnol ar gyfer y cynnig ehangach yn y dyfodol.

Cliciwch [yma](#) am fwy o wybodaeth.



Phil Okwedy: The Gods Are All Here - Perfformiad a gweithdy

Cynnig perfformiad chwedleua ac ymgysylltu ag ysgolion – prosiectau, sgysiau, perfformiadau a gweithdai ar gyfer eich ysgol.

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)



Camu i ddyfodol darlledu yn stiwdios diweddaraf a mwyaf blaenllaw'r BBC

O fis Gorffennaf 2022, bydd canolfan ddarlledu y BBC yn y Sgwâr Canolog, Caerdydd ar agor i'r cyhoedd gyda theithiau cyhoeddus ar gyfer dysgwyr dros 7 oed.



Deunyddiau UEFA ar gyfer ysgolion

Mae gan y National Literacy Trust ddeunyddiau UEFA am ddim ar gael i ysgolion.

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#).



Arolwg Technoleg Mewn Mathemateg

Dweud eich dweud ar sut defnyddir technoleg mewn addysg fathemateg yng Nghymru.

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#).

Cynhadledd e-sgol 2022 - Ysbrydoli, Ysgogi, Ymgysylltu

Cynhelir y gynhadledd hon ar 07/07/22. Am fwy o wybodaeth a sut i gofrestru cliciwch [yma](#).

Arolwg lechyd a Lles HAPPEN ar gyfer Ysgolion Cynradd

Mae ymchwilwyr ym Mhrifysgol Abertawe yn gwahodd ysgolion cynradd GwE i gymryd rhan yn eu harolwg dwyieithog HAPPEN. Mae'r arolwg wedi ei gynllunio i helpu ysgolion i werthuso iechyd a lles disgyblion ac mae'n cefnogi dull yn seiliedig ar dystiolaeth o ymdrin â'r maes darpariaeth pwysig hwn.

Cofrestrwch i gael cyfarwyddyd cam wrth gam ar sut i gynnal arolwg Happen yn eich ysgol:

<https://happen-wales.co.uk/register-to-take-part/>

Am restr o Gwestiynau Cyffredin ac i gael mwy o wybodaeth, dilynwch y ddolen hon:

<https://happen-wales.co.uk/faqs/>

